

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 6ed Medi 2017 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Butterfield, Mrs. J. Chamberlain-Jones, S. Harris, Mrs. J. Hughes, A.S. Johnson, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, Ms. J. McAlpine, A.J. Rutherford a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

13. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr J. Ball, Mrs. E. Chard, B. Mellor a Ms. V. Roberts

14. CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD YN YSTOD EGWYL MIS AWST

Ymhellach i Gofnod Rhif 40 Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19eg Gorffennaf 2017, nododd yr Aelodau y ceisiadau canlynol a oedd wedi cael ymateb yn ystod egwyl mis Awst gan Glerc y Dref mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

ATRODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO		SEIBIANT MIS AWST
14.1	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u> Safle Ocean Beach, Ffordd Wellington, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Foryd</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Butterfield ac A. James</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2017/0646</p> <p>Manylion Tirlunio a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 1, caniatâd amlinell 45/2013/1510 (Cais Materion Neilltuedig).</p> <p>Yr ymgeisydd yw Scarborough Development Group</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad.</p>	
14.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u> 50 Bath Street, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Plastirion</p>	

	<p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> K.R. Jones a T. Thomas</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2017/0677</p> <p>Newid defnydd tŷ annedd yn ganolfan asesu teuluoedd.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Mrs. Karen Waring o 38.6 Solutions yn y cyfeiriad uchod.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad.</i></p>
14.3	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u> 176 Ffordd Rhuddlan, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Derwen</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs. E.M. Chard, Miss E.L. Jones</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2017/0706</p> <p>Newididau ac estyniadau i gefn tŷ annedd a newidiadau ac ymestyn adeilad mwynderau.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Mr. Lee Highland o 158 Ffordd Rhuddlan, y Rhyl.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad.</i></p>
14.4	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u> 65 Grange Road, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Pendyffryn</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. D. L. King ac A.J. Rutherford</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2017/0629</p> <p>Adeiladu mur terfyn newydd.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Mrs. Claire Wright o'r un cyfeiriad.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad.</i></p>
14.5	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u> Vickers and Sons Ltd, Greenfield Place, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Pendyffryn</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. D. L. King ac A.J. Rutherford</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2017/0540</p> <p>Newid defnydd o werthwr nwyddau plymio i gyfleustra hamdden/iechyd a</p>

ffitrwydd. Yr ymgeisydd yw Mr. Colin Adam Jones, 14 Kinard Drive, y Rhyl. <u>PENDERFYNIAD</u> Dim gwrthwynebiad.

15. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Mewn perthynas â chais rhif 45/2016/0741 datganodd y Cynghorydd Keith Jones ei fuddiant personol yn y cais oherwydd ei fod yn aelod o'r cyfleustra Barcudsyrrffio cyffiniol, a fyddai efallai yn cael ei effeithio gan y datblygiad.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

ATODLEN O GEISIADAU CYNLLUNIO	
15.1	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u> Safle Theatr y Pafiliwn a'r Heulfan a thir cyffiniol/meysydd parcio ceir a bysus, Rhodfa'r Dwyrain, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Plastirion</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> K. Jones a T. Thomas</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2016/0741</p> <p>Manylion golwg, cynllun a maint tafarn Dosbarth A3 a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 2 cod caniatâd cynllunio 45/2016/0740.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Marston's Estates Limited, Marston's House, Wolverhampton, WV1 4JT</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u></p> <p><i>Dim gwrthwynebiad yn amodol ar</i></p> <p>(a) Gynnwys rhagofalon ar gyfer pwyntiau mynediad i gerbydau arddangos mawr a ddefnyddir yn ystod digwyddiadau mawr yn Arena Digwyddiadau'r Rhyl;</p> <p>(b) Bod gofyn i'r datblygwr ddarparu arwyddion cyfeirio dwyieithog i'r ysgol Barcudsyrrffio yn ystod y cyfnod adeiladu ac ar ôl y gwaith datblygu.</p>
15.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u> 44 North Drive, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Derwen</p>

	<p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs. E.M. Chard, Miss E.L. Jones</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2017/0753</p> <p>Adeiladu estyniadau a newid tŷ annedd.</p> <p>Yr ymgeiswyr yw Mr. a Mrs. Thomas a Penny Hughes o'r un cyfeiriad.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad.</i></p>
15.3	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u> 23 Elwy Street, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Bodfor</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Ms. J. Hughes Ms J. McAlpine</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2017/0738</p> <p>Adeiladu estyniad i dŷ annedd.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Mrs. Joanne Hughes o'r un cyfeiriad.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad.</i></p>
15.4	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u> Tir yng Ngwybr Fawr, Rhuddlan, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Derwen</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs. E.M. Chard, Miss E.L. Jones</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2017/0790</p> <p>Newid defnydd tir i ffurfio lle storio carafanau teithiol ychwanegol, creu canteli sgrinio a thirlunio.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Mrs. Helen Proffitt, Cwybr Fawr Partners, Cwybr Fawr, Rhuddlan, y Rhyl.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad.</i></p>

16. **RHIF Y CAIS: 45/2017/0351 ARDDANGOS 2 ARWYDD FFASGIA GYDA GOLAU MEWNOL YN UNED 6 (POUNDWORLD), PARC MANWERTHU CEI MARINA, Ffordd Wellington, Y RHYL**

Cyflwynodd Clerc y Dref ohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ddinbych yn ymwneud â gosod arwyddion dwyieithog nad ydynt yn unol â'r maint y gofynnwyd amdano.

PENDERFYNWYD *gofyn i'r Cyngor Sir fynd ymlaen i ofyn am arwyddion dwyieithog o faint cyfartal i osgoi sefydlu cynsail ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol.*

17. **YMGYNGHORIAD CYNGOR SIR DDINBYCH AR Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL – ADRODDIAD AROLYGU A CHYTUNDEB CYFLENWI DRAFFT AR GYFER Y CDLI NEWYDD 21AIN AWST 2017 – 20AIN HYDREF 2017**

Hysbysodd Clerc y Dref ei fod wedi derbyn gwybodaeth yn ymwneud â'r arolwg o Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD:

(a) *Cydnabod yr wybodaeth;*

(b) *Bod Clerc y Dref yn gofyn bod y Cyngor Tref yn medru penodi cynrychiolydd i wasanaethu ar unrhyw Bwyllgor Arolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a sefydlir, a*

(c) *Gofyn i'r Cyngor Sir ddarparu rhestr o safleoedd a ddyrannwyd neu a allai gael eu dyrannu ar gyfer tai yn ardal y Rhyl.*

18. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: